Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**2 Ffordd Siabod**

**Y Felinheli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# 2 Ffordd Siabod

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited. |
| Lleoedd cofrestredig | 2 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 06 Rhagfyr 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae diwylliant y cartref yn gynhwysol a chaiff y bobl eu hannog i gymryd rhan ac i wneud penderfyniadau am bob agwedd ar eu gofal a'u cymorth. Mae amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon ar gael i'r bobl, yn seiliedig ar eu dewisiadau, sy'n gwella eu llesiant ac ansawdd eu bywyd. Maent yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi fel unigolion ac yn cael eu grymuso gan dîm rheoli a staff ymroddedig, sy'n arddangos ethos gwaith cadarnhaol a gofalgar.

Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i fod yn annibynnol, yn weithgar, ac i gyflawni eu nodau a'u canlyniadau unigol. Mae'r cynlluniau personol yn glir, wedi'u personoli at anghenion unigol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rheolwr yn cymryd camau i sicrhau bod y gofal yn addas ac yn hyrwyddo eu llesiant. Mae'r bobl wedi setlo ac yn gyfforddus â'r staff gofal sy'n rhoi gofal cyson, llawn parch iddynt.

Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gallant ddewis sut i addurno'r cartref. Mae'r bobl yn teimlo'n gyfforddus am eu bod yn cael gofal mewn amgylchedd dymunol, cartrefol a glân.

Mae systemau sicrhau ansawdd addas ar waith. Mae arweinyddiaeth y cartref yn gryf ac yn effeithiol wrth ddarparu gwasanaeth sy'n cadw'r bobl yn ddiogel ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau.

## Llesiant

Mae'r rheolwr yn hyrwyddo diwylliant o gymryd rhan yn y cartref sy'n golygu bod y bobl yn gwneud dewisiadau am eu gofal o ddydd i ddydd, eu gweithgareddau a'u hamgylchedd. Gofynnir iddynt sut yr hoffent i'w gofal gael ei ddarparu ac maent yn pennu eu nodau eu hunain. Mae'r rheolwr yn annog y bobl i gymryd rhan wrth recriwtio er mwyn iddynt gael cyfle i ddweud eu dweud am yr unigolion a gaiff eu cyflogi i ofalu amdanynt. Mae'r bobl hefyd yn cael eu cynnwys wrth ddewis décor a dodrefn i'r cartref.

Mae'r staff gofal yn gweithio gyda'r bobl i gefnogi eu hiechyd emosiynol a'u hiechyd corfforol ac yn eu hannog i fod yn weithgar. Mae'r rheolwr yn cadw mewn cysylltiad â gweithwyr iechyd proffesiynol ac yn monitro iechyd y bobl. Mae tîm amlddisgyblaethol yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynnydd unigolion neu unrhyw broblemau, ac mae aelodau'r tîm yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r tîm gofal. Mae hyn yn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl.

Mae gweithgareddau cymunedol ar gael i'r bobl a gallant gymryd rhan yn y gweithgareddau o'u dewis. Maent yn cwblhau cynllunydd gweithgareddau wythnosol gyda'u gweithiwr allweddol. Mae'r cymorth y mae'r staff gofal yn ei ddarparu yn annog y bobl i wella eu sgiliau byw'n annibynnol.

Mae'r rheolwr a'r staff gofal yn diogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant diogelu ac maent yn gwybod sut i gadw'r bobl yn ddiogel, a pha gamau i'w cymryd os byddant yn pryderu am eu llesiant. Mae'r staff gofal yn dilyn y cynlluniau rheoli risgiau. Mae systemau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r darparwr yn cwblhau gwiriadau recriwtio addas cyn i'r staff ddechrau gweithio.

Mae'r bobl yn hapus yn amgylchedd eu cartref. Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ddiogel yn y cartref a'r tu allan iddo. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio trefniadau cynnal a chadw ac iechyd a diogelwch y gwasanaeth yn effeithiol. Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n helpu unigolion i gyflawni eu canlyniadau llesiant.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cwblhau cynlluniau personol gyda'r rheolwr. Mae'r cynlluniau yn cynnwys yr hyn sy'n bwysig iddynt, eu dymuniadau a'u nodau. Maent yn cyfrannu at y broses o hyfforddi'r staff gofal sy'n gweithio gyda nhw, a gwnaethant gadarnhau bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safon y gofal a gânt. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael mwy o wybodaeth am sut y dylent ddarparu gofal. Mae'r tîm rheoli a'r staff gofal yn cydnabod bod y bobl yn unigryw ac yn cydweithio i hybu eu hyder, eu hunan-barch a'u hannibyniaeth. Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i ymweld ag aelodau o'u teulu a ffrindiau.

Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynnydd y bobl neu unrhyw faterion sy'n eu hatal rhag gwneud cynnydd. Mae'r tîm yn ystyried sut y gallai wella profiadau'r bobl ymhellach. Mae'r rheolwr yn cyfleu unrhyw benderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd i'r staff gofal mewn cyfarfodydd tîm.

Mae'r darparwr wedi rhoi trefniadau ar waith i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch y bobl gymaint â phosibl. Mae'r ffeiliau personol yn cynnwys gwybodaeth i ddiogelu'r bobl. Mae'r staff gofal yn gwybod â phwy i gysylltu a beth i'w wneud os byddant yn meddwl bod unigolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin. Mae mesurau da ar waith i leihau'r risg o haint. Mae systemau effeithiol ar waith i oruchwylio ac archwilio'r trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn dŷ teras diwedd y rhes ar ystad dai yng Ngwynedd. Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl. Gallant wneud pethau drostynt eu hunain am fod cynllun a dyluniad y cartref a'i gyfleusterau yn hyrwyddo annibyniaeth a hygyrchedd. Mae'r cartref yn cynnig llety cysurus, glân a chartrefol. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hoffi'r cartref a'u hystafelloedd gwely a'u bod yn gallu dewis sut i'w haddurno a chael pethau o'u cwmpas y maent yn eu hoffi. Mae'r dodrefn mewn cyflwr da ac mae gan y bobl luniau o'r rhai sy'n bwysig iddynt.

Mae contractau ar waith ar gyfer gwasanaethu'r system wresogi, gosodiadau trydanol a'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd. Mae'r cartref yn nodi risgiau mewn perthynas â'r amgylchedd a gweithgareddau ac yn rhoi mesurau ar waith i'w rheoli. Mae asesiad risg tân ac mae'r staff gofal yn trefnu ymarferion tân ac yn sicrhau bod y cyfarpar diogelwch tân a'r synwyryddion mwg yn cael eu profi'n rheolaidd. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEPs) ar waith ac wedi'u hysgrifennu'n unol ag anghenion unigol. Mae'r tîm rheoli a'r staff gofal yn rhoi gwybod i'r darparwr am faterion cynnal a chadw ac mae'n ymateb yn brydlon. Mae'r cartref yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda er mwyn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu da ar waith yn y cartref. Mae rheolwr interim yn goruchwylio'r gweithrediadau o ddydd i ddydd ar hyn o bryd, a chaiff ei gefnogi gan yr unigolyn cyfrifol ac uwch-reolwr. Ymdriniwyd â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y cartref a bod safon y cymorth a gânt gan y tîm rheoli yn uchel. Mae darparwr y gwasanaeth yn rhagweithiol wrth geisio recriwtio staff ac yn dilyn arferion cyflogi diogel. Mae digon o staff gofal parhaol ar gael i sicrhau bod y bobl yn cael gofal cyson.

Caiff y staff gofal eu cefnogi yn eu rôl drwy gyfarfodydd goruchwylio unigol. Mae'r cyfarfodydd yn cynnwys trafodaethau am anghenion a chynnydd y bobl, ac mae'r rheolwr yn profi gwybodaeth aelodau o'r staff gofal ac yn trafod materion sy'n gysylltiedig ag ymarfer. Mae'r tîm rheoli yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd, ac mae'r cofnodion yn dangos bod y trafodaethau am y bobl a'r gwasanaeth yn gynhwysfawr. Mae'r cofnodion yn cadarnhau bod y staff gofal yn ymgymryd â hyfforddiant addas i'w helpu i ddarparu'r gofal cywir i'r bobl, a dywedodd y staff gofal wrthym fod ansawdd yr hyfforddiant yn dda.

Mae gan y darparwr systemau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith i fonitro'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei weithredu a nodi meysydd i'w gwella. Dywedodd y rheolwr ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi a'i fod mewn cysylltiad rheolaidd â'r unigolyn cyfrifol ac uwch-reolwyr eraill yn y sefydliad. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref o leiaf bob tri mis. Mae'n siarad â'r bobl sy'n byw yno, y staff gofal a'r rheolwr. Mae hefyd yn bwrw golwg dros y cofnodion ac yn llunio adroddiad ar ei ganfyddiadau, sy'n cynnwys unrhyw gamau gweithredu i'w cymryd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 14 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi darparu cadarnhad ysgrifenedig y gall y gwasanaeth gefnogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth benderfynu a yw'r gwasanaeth yn addas i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. | Cyflawnwyd |
| 15 | Roedd y wybodaeth yn y cynlluniau gofal yn anghywir, ac nid oedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen y cynlluniau. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth baratoi cynllun ar gyfer pob unigolyn sy'n nodi'r gofal a'r cymorth y cytunwyd arno. Rhaid i'r cynlluniau roi canllawiau clir ac adeiladol i'r staff gofal ynglŷn â'r unigolyn, ei anghenion gofal a chymorth a'r canlyniadau yr hoffai eu cyflawni. | Cyflawnwyd |
| 16 | Pan gaiff y cynlluniau personol eu hadolygu, ni chânt eu diwygio na'u datblygu i adlewyrchu newidiadau i anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a'i ganlyniadau personol. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod y cynlluniau yn cynnwys digon o wybodaeth am anghenion yr unigolyn, a'r graddau y mae wedi gallu cyflawni ei ganlyniadau personol. | Cyflawnwyd |
| 18 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi cwblhau asesiad y darparwr. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gwblhau asesiad y darparwr o fewn saith diwrnod ar ôl i unigolyn gael ei dderbyn i'r cartref, gan adolygu'r asesiad yn barhaus a'i ddiwygio pan fo angen. | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod pob aelod o'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio unigol fel sy'n ofynnol. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau y caiff pob aelod o'r staff gofal sesiynau goruchwylio un i un gyda'i reolwr llinell unwaith bob chwarter o leiaf. | Cyflawnwyd |
| 64 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod y gwasanaeth wedi dilyn y polisi cwyno. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth roi trefniadau effeithiol ar waith i ddelio â chwynion fel sy'n ofynnol gan y | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | rheoliadau. | |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/03/2024